


Ceangal | Cwlwm III yw'r trydydd cynulliad o artistiaid sy'n gweithio  trwy gyfrwng y Wyddeleg, Gaeleg yr Alban a'r Gymraeg.  Digwyddodd cynulliad eleni yn gyfangwbl ar-lein ar 26 & 27ain o Dachwedd.

Pedwar amcan allweddol y cynulliad yw:

- Archwilio ffyrdd arloesol o wneud gwaith newydd yn y Wyddeleg, Gaeleg yr Alban a'r Gymraeg.
- Cwestiynu a rhannu modelau o arfer da.
- Cytuno ar egwyddorion arweiniol cyffredin ar gyfer y sectorau theatr Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban a Chymraeg sy'n meithrin parch, cydraddoldeb, ac amrywiaeth ieithyddol.
- Comisiynu gwneuthurwyr theatr i gyflwyno gwaith newydd mewn Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban a'r Gymraeg.

Galwad:

Fel rhan o gynulliad eleni, bydd Ceangal | Cwlwm III yn comisynu 6 darn newydd o waith, i'w cyflwyno'n ddigidol  mewn digwyddiad arlein arbennig ym Mawrth / Ebrill 2022 ac arlein ar wefan Ceangal | Cwlwm yn dilyn hynny (www.ceangalcwlwm.com). Bydd y detholiad olaf yn cynnwys 2 ymgeisydd o bob gwlad bartner. Nod y comisiwn yw cynnig cyfleoedd creadigol wedi eu hariannu i artistiaid sy'n gweithio yn y Wyddeleg, Gaeleg yr Alban a'r Gymraeg yn ystod yr amser heriol hwn ac i gefnogi datblygiad gwaith newydd yn y tair iaith leiafrifol hyn.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn ffi gomisiwn o €2,400.00 (Iwerddon) | £2,000.00 (yr Alban/Cymru/Gogledd Iwerddon ) i ddatblygu a chyflwyno'n ddigidol ddarn o waith yn Ceangal | Cwlwm III ym mis Mawrth 2022 ar y thema "Gwydnwch". Mae'r ffi yn un hollgynhwysol, i gynnwys datblygu, creu a dogfennu'r darn, yn cynnwys cydweithwyr, technegwyr ac unrhyw weithwyr llawrydd eraill sy'n ymwneud â chreu'r gwaith. Gwahoddwn artistiaid o'r tair gwlad bartner i gyflwyno cais cyn y dyddiad **cau estynedig 7fed Ionawr 2022 am 5pm**.

Rhoddir gwybod i ymgeiswyr yn ystod yr wythnos yn dechrau 10fed Ionawr 2022, a'r dyddiad cau ar gyfer y darnau gorffenedig fydd Dydd Llun 21ain Mawrth 2022 gyda digwyddiad ar-lein arbennig ym Mawrth / Ebrill 2022.

Meini prawf:

• Darn newydd o theatr yn seiliedig ar y thema "Gwydnwch" y mae modd ei ddarlledu ar-lein.
• Bydd y darn wedi ei recordio ymlaen llaw a dylai fod wedi ei ysgrifennu a/neu ei berfformio yn Gymraeg, Gaeleg yr Alban neu'r Wyddeleg.
• Bydd y darn terfynol rhwng 5-10munud o hyd, wedi'i ffilmio i safon proffesiynol (1920×1080 / 25fps) a'i gyflwyno ar fformat MP4 neu .Mov. Gellir gofyn am gyngor mewn perthynas â dulliau arfer da mewn ffilmio.
• Annogir ymgeiswyr i ddangos arloesedd, uchelgais a gwreiddioldeb.
• Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu enghreifftiau o waith blaenorol yn yr iaith berthnasol i alwad y comisiwn.

Sut i ymgeisio:

Ebostiwch Marianne.nichinneide@nuigalway.ie; rhona@theatreguleor.com; lisa.lewis@decymru.ac.uk gyda "Ceangal | Cwlwm 2021 Commission" fel pwnc ebost.

Mewn ffurflen PDF rhowch aminelliad o:

• Pwy ydych chi a chyd-destun y math o waith rydych chi'n ei greu (uchafswm 200 gair).
• Enw eich prosiect theatr arfaethedig.
• Manylion y syniad yr ydych yn bwriadu ei greu pe baech chi'n llwyddiannus, ynghyd â sut yr ydych yn bwriadu ei greu. (uchafswm 300 gair).

• Dylech gynnwys enwau unrhyw gydweithwyr neu artistiaid cysylltiol/llawrydd sy'n rhan o'r prosiect arfaethedig.

Yn ystod y broses artistig dynodir person cyswllt i'r artistiaid llwyddiannus, o blith tîm cynhadledd Ceangal | Cwlwm III .

*Mae'r comisiwn hwn wedi ei gyllido a'i gefnogi gan y cyrff canlynol, Prifysgol De Cymru, Colmcille, Ealaín na Gaeltachta, Taibhdhearc na Gaillimhe, Theatre GuLeor, An Taibhdhearc & National University of Ireland, Galway.*